

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â'ch gallu chi i greu effeithiau bychain.

Bydd yn gofyn am ddealltwriaeth o offer camera, gan gynnwys lensys, fformatau a mowntiau, a chyswllt agos â'r Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth, er mwyn deall sut y bydd yr effeithiau bychain yn cael eu ffilmio.

Bydd hefyd yn gofyn i chi ddeall adeiladu, trin digidol ac effeithiau gweledol.

Mae'n cymryd yn ganiataol fod gennych ddealltwriaeth o byrotechneg a'ch bod chi'n gallu gweithio'n agos gydag aelodau'r tîm pyrotechneg i ddarparu'r effaith yn ddiogel ac effeithiol.

Bydd yn gofyn i chi gysylltu â'r gwneuthurwyr priodol ac mewn rhai achosion ddefnyddio Dylunio â Chymorth Cyfrifiadur (CAD), Cynhyrchu â Chymorth Cyfrifiadur (CAM) neu argraffwyr 3D i gynhyrchu'r modelau angenrheidiol.

Mae'r Safon hon ar eich cyfer chi os ydych chi'n creu effeithiau arbennig bychain.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. creu effeithiau bychain yn unol â manyleb y sgript gynhyrchu, gofynion cynhyrchu, cyfyngiadau a chyllideb
2. ymgynghori â phenaethiaid adran priodol i gadarnhau fod effeithiau bychain yn cwrdd â gofynion ar ôl eu cwblhau
3. cysylltu â phersonél cynhyrchu perthnasol ac awdurdodau gorfodi i sicrhau fod effeithiau'n ddiogel ac yn cydymffurfio'n gyfreithiol
4. darparu dogfennaeth i bobl berthnasol mewn fformatau priodol i fanylu ar sut y bydd effeithiau bychain yn cael eu dylunio a'u cyflawni
5. sicrhau fod effeithiau bychain yn cael eu gweithgynhyrchu a'u graddio o ran maint i gwrdd â gofynion cynhyrchu
6. sicrhau fod unrhyw ddogfennaeth angenrheidiol yn cael ei greu a'i gadw'n unol â rheoliadau
7. ffynonellu deunyddiau priodol ar gyfer yr effeithiau bychain sy'n cael eu cynhyrchu
8. cynnal iechyd a diogelwch y cast a'r criw bob amser
9. cydweithio gyda thechnegwyr pyrotechnig i greu effeithiau pyrotechnig sy'n cwrdd â gofynion cynhyrchu a diogelwch
10. cydweithio â thechnegwyr CAD, CAM neu argraffu 3D i gynhyrchu unrhyw fodelau gofynnol yn unol â gofynion cynhyrchu
11. dogfennu pob agwedd ar asesu a rheoli risg mewn fformatau gofynnol
12. darparu atebion amgen o fewn y gyllideb a'r amserlen os na ellir cynhyrchu effeithiau i'r dyluniad neu gyllideb wreiddiol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. manyleb y sgript, cyllideb ac amserlen ar gyfer yr effaith ffisegol arbennig
2. deddfwriaeth iechyd a diogelwch a safonau'r diwydiant ar gyfer creu effeithiau bychain
3. cyflymder ffilm, fformatau fframiau a chymarebau
4. y gwahaniaeth rhwng camerâu teledu a ffilm a'u manteision ac anfanteision
5. sut i ddefnyddio camerâu a'u hoffer atodol
6. onglau lensys a'r egwyddorion sylfaenol a gysylltir â nhw
7. mowntiau camerâu a'r modd y maen nhw'n amrywio
8. pwysigrwydd graddoli maint a phersbectif a sut y defnyddir y rhain i greu effeithiau gwahanol
9. sut i ddarllen delweddau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur, triniaeth ddigidol a darluniadau technegol
10. deunyddiau addas a sut i'w ffynonellu, ar gyfer eu defnyddio ar yr effeithiau bychain
11. sut y gellir creu modelau prop digidol a'i hallyrru i'r broses gynhyrchu, boed yn fewnol neu allanol
12. pyrotechnegau, dŵr a tân a sut y maen nhw'n cael eu graddoli o ran maint ar gyfer eu defnyddio mewn effeithiau bychain
13. yr hyn y gellir ei gyflawni gan ôl-gynhyrchu ac effeithiau gweledol

<b>Datblygwyd gan</b>	ScreenSkills
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	01 Maw 2017
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	01 Maw 2020
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Creative Skillset
<b>RCU gwreiddiol</b>	SKSSFX06
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Gweithwyr Proffesiynol Effeithiau Arbennig Ffisegol, Uwch Dechnegydd Effeithiau Arbennig, Hyfforddai Effeithiau Arbennig
<b>Cyfres/Set</b>	Effeithiau Arbennig Ffisegol
<b>Geiriau Allweddol</b>	Effeithiau Arbennig Ffisegol, Dylunio, Cynllunio, Gweithgynhyrchu â chymorth cyfrifiadur, Dylunio gyda chymorth cyfrifiadur, Ymarfer gweithdy, Effaith atmosfferig, Effaith tân ymarferol, Effaith ffrwydrol, Cyllidebau, Datgymalu